| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **13 Medi 2012** |
| **TEITL YR EITEM** | **Strategaeth Addysg** |
| **AWDUR** | **Gareth James** |

1 Yn ei gyfarfod ar 31 Gorffennaf 2012, gofynnodd aelodau'r Pwyllgor Craffu hwn am arweiniad gan y Swyddog Monitro ynglŷn â phriodoldeb sefydlu Gweithgor i gynorthwyo'r Aelod Cabinet i weithredu rhaglen waith ad-drefnu ysgolion y Sir.

2 Cafwyd yr arweiniad canlynol, sef bod tri dewis gan yr aelodau:

a) Mae'r Aelod Cabinet yn sefydlu gweithgor o blith aelodau mainc gefn i'w chynorthwyo gyda'r gwaith o greu cynllun blaenoriaethu. Yr Aelod Cabinet sy'n dewis yr aelodau i'r gweithgor a chyfeirio ei waith – byddai'n weithgor ymgynghorol.

b) Mae'r Aelod Cabinet yn gwahodd y Pwyllgor Craffu i enwebu aelodau i weithgor i'w chynorthwyo i greu cynllun blaenoriaethu. Yr Aelod Cabinet sy'n gosod briff y gweithgor – i bob pwrpas comisiynu gwaith ganddynt.
(Dylid nodi na fydd modd i unrhyw un sydd ar y gweithgor graffu'r gwaith yn ddiweddarach. Os bydd y mater yn mynd yn ôl gerbron y pwyllgor llawn bydd hynny ar ffurf adroddiad i gyflwyno gwaith y gweithgor cyn iddo gael ei drosglwyddo'n derfynol i'r Aelod Cabinet.)

c) Mae'r Pwyllgor Craffu'n sefydlu gweithgor i graffu'r gwaith o ddatblygu'r cynllun blaenoriaethu. Yr Aelod Cabinet sy'n arwain a chyflawni'r gwaith – mewnbwn y gweithgor fyddai craffu a herio pan mae cerrig milltir allweddol yn cael eu cyrraedd.
(Er mwyn bod yn gwbl glir ar y berchnogaeth a'r arweiniad, yr adran berthnasol (Addysg yn yr achos hwn) fyddai'n cefnogi'r Aelod Cabinet a'r gweithgor yn a) a b) ond y tîm craffu fyddai'n cefnogi'r gweithgor yn c))

3 Mae'r Cynllun Blaenoriaethu drafft eisoes wedi cael ei gychwyn a bydd yn cael ei drafod yn y Cabinet anffurfiol ar 11 Medi. Felly, nid ydyw opsiynau a) a b) yn berthnasol bellach

4 A<u>rgymhelliad</u>
Bod y Pwyllgor Craffu yn Monitro Cynnydd ac yn gofyn am adroddiad pan fydd angen.